## SEFYLLFA BYD NATUR SIR GAERFYRDDIN – MAMALIAID ADRAN 7 'Â BLAENORIAETH'

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Adran 7 – Rhestrau bioamrywiaeth a'r ddyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth**.
Mae'r rhywogaethau sydd wedi'u rhestru yn y tabl hwn wedi'u cydnabod gan Lywodraeth Cymru fel rhan o restr o rywogaethau a mathau o gynefinoedd a geir yng Nghymru. Y mae'n ystyried bod y rhain o bwysigrwydd allweddol i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn y wlad hon. Mae'r rhestr (rhestr A7) yn cael ei hadolygu gan LlC a Chyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd.
Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus (ee, LlC, cynghorau) gymryd camau rhesymol i gynnal a gwella'r rhywogaethau a'r mathau o gynefinoedd sydd wedi'u cynnwys yn Adran 7, ac annog eraill i gymryd camau o'r fath. Drwy ddiogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn, gwella'r rheolaeth arnynt a chodi ymwybyddiaeth amdanynt, gobeithir y gellir cynnal amgylchedd natur gwydn yng Nghymru i'r dyfodol.

Y rhywogaethau Adran 7 yw'r rhywogaethau y mae Partneriaeth Natur Sir Gâr yn ystyried bod angen rhoi'r flaenoriaeth i weithredu yn eu cylch, ond mae rhywogaethau eraill wedi'u nodi ar gyfer gweithredu lleol, lle ceir ychydig o gofnodion, neu lle bo gan Sir Gaerfyrddin boblogaethau lle gellir helpu i warchod neu wella'r rhywogaeth drwy gymryd camau penodol.

Mae **cynefinoedd cysylltiedig** yn cyfeirio at y cynefinoedd Adran 7 perthnasol y rhoddir blaenoriaeth iddynt yng Nghymru.

Darllenwch Cyflwr Mamaliaid yng Nghymru 2020 ac Atlas Ystlumod Sir Gaerfyrddin 2021 gan y Gymdeithas Mamaliaid am wybodaeth a disgrifiadau manylach o rywogaethau.

*Tynnwyd y statws Rhestr Goch o Cyflwr Mamaliaid yng Nghymru 2020 (gweler tudalen 35 y ddogfen honno)

| RHYWOGAETHAU O FAMALIAID ADRAN 7 Â BLAENORIAETH YN SIR GAERFYRDDIN - cofnodwyd ers 2000 | | |
|---|---|---|
| RHYWOGAETHAU | TROSOLWG O SIR GAERFYRDDIN | CAMAU Â BLAENORIAETH |
| *Martes martes* - bele'r coed<br><br>©Tony Braithewaite | • **Cynefin cysylltiedig:** Anifail sy'n byw ar ei ben ei hun yw bele'r coed. Mae ei boblogaeth yn isel o ran dwysedd ac mae'n byw mewn coetiroedd collddail a chonwydd yn ogystal ag ar dir mwy agored fel mannau creigiog.<br>• **Statws presennol:** yng Nghymru statws 'Rhestr Goch'* bele'r coed ar hyn o bryd yw Mewn perygl difrifol<br>• Mae'n debygol fod poblogaeth weddilliol yn y sir ac mae cofnodion o'r gogledd a'r dwyrain. Gwnaed y cofnod diweddaraf yn Allt Rhyd y Groes yn 2013 yn rhannau uchaf Dyffryn Tywi<br>• **Bygythiadau:** Mae nifer o resymau pam fod poblogaethau bele'r coed yn methu adfer ar eu pen eu hunain: mae gorchudd coedwigoedd yn dameidiog ac ym mhlanhigfeydd mwy yr ucheldir mae dwysedd ysglyfaethau yn isel; mae coed addas gyda cheudod yn brin, ac mae ôl pori trwm a phrinder ysglyfaethau ar ucheldir creigiog sy'n cynnig lloches amgen.<br>• **Camau gweithredu cyfredol:** Ar ôl cynnal astudiaeth dichonolrwydd, mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent wedi cyflawni Prosiect Adfer Bele'r Coed yn y Canolbarth. Rhwng 2015 a 2017, cafodd 51 o felaod y coed eu dal yn yr Alban, mewn ardaloedd lle ceir poblogaeth iach ohonynt, o dan drwydded gan Scottish Natural Heritage. Cafodd yr anifeiliaid hyn eu cludo a'u rhyddhau mewn coedwigoedd yng nghanolbarth Cymru. Erbyn hyn mae nifer cynyddol yn cael eu gweld yn y Sir – yn enwedig yn y gogledd. Fe'u gwelir yn aml ar gamerâu llwybrau sy'n monitro gwiwerod coch. | • Annog cyflwyno cofnodion i Ganolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru<br>• Ystyried cynlluniau i osod blychau fel ffeuau ar dir coediog os/pan geir cofnodion.<br>• Hyrwyddo'r rhywogaeth a hysbysu tirfeddianwyr amdani er mwyn osgoi erledigaeth.<br>• Os ydynt yn symud i mewn i ardal benodol, sicrhau bod gweithwyr coedwigaeth yn ymwybodol ohonynt er mwyn osgoi eu lladd/dinistrio eu ffau ar ddamwain wrth weithio. |
| *Arvicola amphibius* - llygoden y dŵr<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** Cynefinoedd dŵr croyw/gwlyptir<br>• Wedi'i dosbarthu'n llawer mwy eang ar un adeg, ond bellach mae'r prif boblogaethau ar wastadeddau Llanelli ac yn ardal Talacharn-Pentywyn.<br>• Ychydig o gofnodion a geir mewn ardaloedd ucheldirol, ac mae'n debyg bod llygod y dŵr wedi'u tangofnodi yn yr ardaloedd hyn o'r sir.<br>• **Statws presennol:** Yng Nghymru statws 'Rhestr Goch'* llygoden y dŵr ar hyn o bryd yw Mewn perygl<br>• Mae Llanelli yn Safle Allweddol Cenedlaethol ar gyfer llygod y dŵr yn y DU.<br>• **Bygythiadau:** Mae colli/darnio cynefin a diraddio yn sgil arferion amaethyddol, datblygiad ac atgyfnerthu glannau afonydd a chamlesi, a mincod yn ysglyfaethu | • Cofnodion o ardaloedd ucheldirol addas - arolygon wedi'u targedu o dir ar reolir gan Bartneriaeth Natur Sir Gâr/codi ymwybyddiaeth. |

| RHYWOGAETHAU O FAMALIAID ADRAN 7 Â BLAENORIAETH YN SIR GAERFYRDDIN - cofnodwyd ers 2000 | | |
|---|---|---|
| RHYWOGAETHAU | TROSOLWG O SIR GAERFYRDDIN | CAMAU Â BLAENORIAETH |
| | arnynt, oll wedi achosi gostyngiad yn niferoedd yr anifail hwn yn y sir.<br>• **Gweithredu cyfredol:** Cafodd tua 450 o lygod y dŵr eu rhyddhau yn ardal Pen-bre fel rhan o Strategaeth Llygod y Dŵr CNC ar gyfer de Cymru yn 2014/15. Fe'u cymerwyd o stoc bridio yn Llanelli. Ynghyd â gwaith rheoli cynefinoedd a rheoli mincod (a gyflawnir yn flynyddol), dylai hyn wella hyfywedd y rhywogaeth hon, sydd mewn perygl, yn sylweddol yn y dyfodol. Ymddengys ei bod wedi lledaenu i gynefin addas cyfagos, ee. Camlas Pen-bre.<br>• Mae nifer o bartneriaid Partneriaeth Natur Sir Gâr yn rheoli safleoedd sy'n cynnwys llygod y dŵr: Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cwrs Golff Machynys. | |
| *Sciurus vulgaris* gwiwer goch<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** yn Sir Gaerfyrddin mae'r wiwer goch bellach wedi'i chyfyngu i blanhigfeydd conwydd mawr yng ngogledd y sir. Maent wedi cael eu gweld yn achlysurol ar goetir collddail sydd o amgylch y coedwigoedd hyn.<br>• **Statws presennol:** yng Nghymru statws 'Rhestr Goch'* y wiwer goch ar hyn o bryd yw Mewn perygl.<br>Yng Nghanolbarth Cymru maent i'w cael ar ddwysedd isel, ond gallai eu cwmpas fod yn ehangu.<br>• **Bygythiadau:** mae gwiwerod llwyd yn fygythiad parhaus i wiwerod coch, drwy ddominyddu cynefinoedd a thrwy gludo'r firws marwol brech y gwiwerod.<br>• Mae darnio a cholli rhywogaethau conwydd addas yng nghoedwigoedd canolbarth Cymru yn fygythiad lleol, yn ogystal â chlefydau coed a phlannu sbriwsen sitca ar raddfa eang, sy'n anffafriol i wiwerod coch.<br>Camau gweithredu cyfredol<br>• Mae Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru yn gweithio er mwyn gwarchod gwiwerod coch a chynyddu eu niferoedd.<br>• Mae swyddogion prosiect PGCCC yn gweithio gyda gwirfoddolwyr/grwpiau cymunedol ar arolygon ac i reoli gwiwerod llwyd, a chyda CNC a rheolwyr coedwigoedd i reoli cynefinoedd yn ardal graidd y prosiect. | • Annog cofnodion mewn mannau addas lle gellir gweld Gwiwerod Coch<br>• Hyrwyddo Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru |
| *Barbastella barbastellus* — ystlum du<br><br>© Hugh Clark/ www.bats.org.uk | • **Cynefin cysylltiedig:** Coetir<br>• Rhywogaeth sy'n byw mewn coed yn bennaf ac sy'n gysylltiedig â choetir lle ceir cyfran fawr o goed marw sy'n dal i sefyll neu goed wedi'u difrodi gan storm. Yn Sir Gaerfyrddin, mae'n debygol o fod yn byw mewn coedwigoedd o faint mwy a mwy aeddfed ac amrywiol ar lethrau serth y cymoedd.<br>• **Clwydfannau:** yr haf - y tu ôl i risgl rhydd, mewn ceudodau yn y coed, adeiladau, blychau. y gaeaf - ogofâu, mwynfeydd, hen dwneli rheilffordd.<br>• **Statws presennol:** yng Nghymru statws 'Rhestr Goch'* yr ystlum du ar hyn o bryd yw Bregus<br>Yn Sir Gaerfyrddin fe'i hystyrir yn brin iawn.<br>• **Bygythiadau:** Mae ystlumod du yn arbenigwyr ar fwyta gwyfynod, ac mae'n bosib bod y gostyngiad a gofnodwyd yn nifer y gwyfynod ar goetiroedd ac ansawdd cynefinoedd coetir hynafol wedi cael effaith niweidiol arnynt.<br>•Heb hen goetir llydanddail aeddfed sy'n cael ei reoli'n | • Cynnal arolwg o goetiroedd addas drwy ddefnyddio synwyryddion ystlumod sefydlog i ganfod a ydynt yn bresennol - dulliau newydd a all ddangos a allai cytref famolaeth fod yn bresennol mewn datblygiad<br>• Hyrwyddo ystlumod coetir ymhlith tirfeddianwyr i sicrhau rheolaeth addas arnynt. |

| RHYWOGAETHAU O FAMALIAID ADRAN 7 Â BLAENORIAETH YN SIR GAERFYRDDIN - cofnodwyd ers 2000 | | |
|---|---|---|
| RHYWOGAETHAU | TROSOLWG O SIR GAERFYRDDIN | CAMAU Â BLAENORIAETH |
| | briodol, bydd cyfleoedd addas i glwydo yn brin, hy, y tu ôl i risgl sy'n dod yn rhydd. Mae ar gytrefi angen llawer o goed â nodweddion o fewn ardal, gan eu bod yn symud o'r naill glwydfan i'r nesaf yn aml. | |
| *Erinaceus europaeus* - draenog<br><br>© M Newton | • **Cynefin cysylltiedig:** Mae'r cynefinoedd yn amrywio rhwng gwaelod gwrychoedd, gerddi cefn ac ymylon glaswelltog caeau. Yn fwyfwy cysylltiedig ag ardaloedd trefol, yn enwedig parciau a gerddi.<br>• **Statws presennol:** yng Nghymru statws 'Rhestr Goch'* y draenog ar hyn o bryd yw Bregus<br>• Ychydig a wyddys am eu niferoedd na'u gwasgariad yn y sir ond, ynghyd â gweddill y wlad, ymddengys fod eu niferoedd wedi gostwng.<br>• **Bygythiadau:** yn cynnwys gostyngiad yn y cynefin sydd ar gael ac ansawdd y cynefin hwnnw, ynghyd â gostyngiad mewn ffermio cymysg, defnyddio cemegion mewn gerddi a dyluniad gerddi modern. Caiff llawer ohonynt hefyd eu lladd ar y ffyrdd. Mae'n bosib bod moch daear sy'n ysglyfaethu arnynt ac yn cystadlu â nhw am adnoddau hefyd yn cael effaith. | • Annog cyflwyno cofnodion i Ganolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru<br>• Codi ymwybyddiaeth ynghylch y camau cadarnhaol y gellir eu cymryd er budd draenogod - drwy Gynghorau Tref a Chymuned/cylchlythyrau partneriaid/ysgolion. |
| *Lutra lutra* - dyfrgi<br><br>© Mark Newton | • **Cynefin cysylltiedig:** Dŵr croyw / gwlyptir / yr arfordir<br>• **Statws presennol:** yng Nghymru statws 'Rhestr Goch'* y dyfrgi ar hyn o bryd yw Bregus<br>• Mae dyfrgwn wedi'u gwasgaru'n eang ar gyrsiau dŵr a chynefinoedd cysylltiedig ledled y sir. Fe'u gwelir yn achlysurol mewn ardaloedd mwy trefol, fel Llanelli ac ar hyd afon Tywi islaw Caerfyrddin. Fe'u gwelir yn achlysurol bellach ar hyd ein morlin hefyd, ond mae angen dŵr croyw arnynt i lanhau'r halen o'u ffwr.<br>• **Bygythiadau:** Cafwyd adferiad cenedlaethol i'r poblogaethau ar ôl gwahardd plaladdwyr organig parhaus. Heddiw damweiniau traffig ffyrdd yw un o brif achosion eu marwolaeth a gall diffyg safleoedd bridio ynysig addas, a diffyg rhywogaethau ysglyfaeth, yn enwedig llyswennod dŵr croyw, gyfyngu ar boblogaethau. Mae'n bosib bod mathau eraill o lygredd dyfrol hefyd yn effeithio arno.<br>• **Camau gweithredu cyfredol:**<br>• Mae nifer o bibellau dyfrgwn wedi cael eu gosod yn rhan o gynlluniau ffordd neu waith uwchraddio gan y Cyngor.<br>• Mae prosiect ar y gweill i osod pibell sych mewn man lle caiff llawer eu lladd ar y ffordd yng Nghydweli.<br>• Mae partneriaid wedi adeiladu gwaliau artiffisial mewn lleoliadau addas.<br>• Caiff cyrff eu cludo i Brifysgol Caerdydd i gynnal awtopsi arnynt ac ymchwilio i lygryddion, clefydau a bioleg y boblogaeth. | |
| *Micromys minutus* - llygoden yr ŷd<br><br>© Vaughan Matthews | • **Cynefin cysylltiedig:** Gwlyptir / tir fferm - mae'n byw mewn cynefinoedd sy'n cynnwys glaswelltir twmpathog hir/planhigion llysieuol, gwelyau cyrs, gwrychoedd ac o amgylch ymylon coedwigoedd.<br>• **Statws presennol:** yng Nghymru statws 'Rhestr Goch'* llygoden yr ŷd ar hyn o bryd yw Bregus<br>• Ychydig iawn a wyddom am y mamal hwn nad yw'n hawdd ei weld yn y sir. Ceir cofnodion prin yn y sir, gan gynnwys Cors Ffrwd, Pen-bre a dwy Warchodfa Natur Leol.<br>• Credir eu bod wedi'u tangofnodi a'u bod yn debygol o fod yn bresennol mewn cynefin addas mewn ardaloedd eraill. | • Arolygon wedi'u targedu o gynefinoedd addas |

| RHYWOGAETHAU O FAMALIAID ADRAN 7 Â BLAENORIAETH YN SIR GAERFYRDDIN - cofnodwyd ers 2000 | | |
|---|---|---|
| RHYWOGAETHAU | TROSOLWG O SIR GAERFYRDDIN | CAMAU Â BLAENORIAETH |
| | • **Bygythiadau:** mae cynaeafu grawn/rheoli cynefinoedd cyn diwedd tymor magu llygod yr ŷd yn effeithio ar boblogaethau. Mae'r poblogaethau yn amrywio'n helaeth o ran eu maint, sy'n golygu bod cynnal arolwg ohonynt yn fwy heriol. | |
| *Muscardinus avellanarius* — pathew  © Jacqueline Bond | • **Cynefin cysylltiedig**: Tir fferm (gwrychoedd a/neu phrysgwydd) / coetir. Mae coetiroedd lle mae'r is-dyfiant yn drwchus yn gynefin da ac mae gwrychoedd, prysgwydd a mieri yn gynefinoedd pwysig hefyd. Weithiau bydd pathewod yn defnyddio twmpathau o laswellt y gweunydd fel nythod i aeafgysgu.<br>• **Statws presennol:** yng Nghymru statws 'Rhestr Goch'* y pathew ar hyn o bryd yw Bregus<br>• Prif gadarnle pathewod yn y sir yw'r triongl a ffurfir gan Gaerfyrddin, Llandeilo a Llanelli, er bod cofnodion i'w cael mewn mannau eraill.<br>• **Bygythiadau:** colli/darnio cynefinoedd, ynghyd â'r gostyngiad mewn rheolaeth ar goetir, yw un o brif achosion y dirywiad yn y sir gan fod hynny'n ynysu poblogaethau.<br>• **Camau gweithredu cyfredol**<br>• Mae nifer o safleoedd sydd â blychau i bathewod yn cael eu monitro yn y sir gan bartneriaid, ac mae rhai yn arbrofi drwy ddefnyddio twneli ôl troed pathewod, fel ffordd o ganfod a ydynt yn bresennol.<br>• Mae partneriaid Partneriaeth Natur Sir Gâr lle gwyddys bod pathewod yn bresennol yn rheoli safleoedd yn weithredol ar gyfer y rhywogaeth hon, ee, Cyngor Sir Caerfyrddin, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. | • Annog cyflwyno cofnodion i Ganolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru |
| *Rhinolophus ferrumequinum* — ystlum pedol mwyaf  © Tom McOwat | • **Cynefin cysylltiedig:** mae'n bwyta pryfed mwy yn bennaf fel chwilod y gerddi a'r haf, chwilod y dom, gwyfynod a phryfed pric, gan hela o amgylch tir pori gwartheg fel arfer.<br>• **Clwydfannau:** yr haf - mewn gofodau yn nhoeau adeiladau fel arfer. y gaeaf – o dan y ddaear, ee, mewn ogofâu, mwynfeydd, twneli<br>• **Statws presennol:** yng Nghymru statws 'Rhestr Goch'* yr ystlum pedol mwyaf ar hyn o bryd yw Bron dan fygythiad<br>• Mae'n debyg bod ystlumod pedol mwyaf i'w cael yn eang, ond bod eu niferoedd yn isel, a'u bod wedi'u cyfyngu'n bennaf i hanner deheuol y sir. Er hynny, ceir hyd iddynt yr holl ffordd i fyny dyffryn Tywi hyd at Llanymddyfri o leiaf, ac yn Nolaucothi.<br><br>Ystlumod unigol sy'n gaeafu mewn ogofâu a mwynfeydd yw'r rhan fwyaf o'r cofnodion.<br>• **Bygythiadau:** Gall cynhyrchu llaeth a chig eidion dwys, a defnydd eang o gyffuriau gwrth-barasitig olygu bod llai o chwilod y dom ar gael, yn ogystal â chreaduriaid eraill sy'n ysglyfaeth i'r ystlum.<br>Mae goleuadau artiffisial yn y nos yn cael effaith niweidiol ar ystlumod pedol lleiaf. | • Hyrwyddo gostyngiad yn y defnydd o gyffuriau Avamectin a thechnegau ffermio addas mewn ardaloedd sy'n agos at gofnodion.<br><br>• Hyrwyddo gostyngiad mewn goleuadau diangen / mentrau awyr dywyll.<br><br>• Diogelu safleoedd clwydo hysbys a chwilio am safleoedd newydd i hwyluso lledaeniad. |
| *Lepus europaeus* - ysgyfarnog | • **Cynefin cysylltiedig: Glaswelltir a gweundir yr iseldir / yr arfordir / tir llwyd / coetir / yr ucheldir**<br>• **Statws presennol:** yng Nghymru statws 'Rhestr Goch'* yr ysgyfarnog ar hyn o bryd yw Pryder lleiaf<br>• Roedd wedi'i gwasgaru'n llawer ehangach ar un adeg, ond ymddengys fod y prif boblogaethau bellach | |

| RHYWOGAETHAU O FAMALIAID ADRAN 7 Â BLAENORIAETH YN SIR GAERFYRDDIN - cofnodwyd ers 2000 | | |
|---|---|---|
| RHYWOGAETHAU | TROSOLWG O SIR GAERFYRDDIN | CAMAU Â BLAENORIAETH |
| <br>© Mark Newton | mewn ardaloedd lle ceir ffermio llai dwys ac ardaloedd mwy bryniog. Yn ogystal â hynny, gall yr ardaloedd arfordirol o amgylch Pen-bre hefyd fod yn bwysig i ysgyfarnogod yn y sir.<br>• **Bygythiadau:** Y rhesymau dros y dirywiad yw colli cynefinoedd amaethyddol, newidiadau o ran y drefn gynaeafu a phlannu, er enghraifft newid o gywain gwair sych i ladd silwair, a phlannu cnydau grawn yn yr hydref. Mae'n bosib bod bygythiadau'n dod i'r amlwg yn sgil clefydau.<br>• Yn sgil ymgyrch i gofnodi drwy gardiau post llwyddwyd i gasglu nifer o gofnodion yn y sir. | |
| *Rhinolophus hipposideros* - ystlum pedol lleiaf<br><br>© Conor Kelleher/ www.bats.org.uk | • **Cynefin cysylltiedig:** coetir llydanddail, coridorau glannau coediog, a llinellau coed aeddfed a gwrychoedd. Maen nhw'n bwyta amrywiaeth o drychfilod bach.<br><br>• **Clwydfannau:** yr haf - adeiladau ac ynddynt fynediad i ofodau agored yn y to, ac ystafelloedd boeler cynnes. Bydd gwrywod yn defnyddio ogofâu a thwneli. Yn dibynnu ar eu cyfnod bywyd, byddant hefyd yn defnyddio safleoedd tanddaearol a seleri drwy gydol y flwyddyn.<br>Yn Sir Gaerfyrddin, mae cyfresi ogofâu, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â'r gefnen galchfaen, yn safleoedd gaeafgysgu pwysig, yn ogystal â rhai o'r hen fwynfeydd.<br>• **Statws presennol:** yng Nghymru statws 'Rhestr Goch'* yr ystlum pedol lleiaf ar hyn o bryd yw Pryder lleiaf<br>• Mae Cymru yn gadarnle Ewropeaidd ar gyfer y rhywogaeth hon.<br>• Cafwyd nifer cynyddol o gofnodion o'r rhywogaeth hon yn y blynyddoedd diwethaf.<br>Yn Sir Gaerfyrddin, fe'i cofnodwyd yn ne a de-orllewin y sir, gydag ychydig iawn o gofnodion yn y gogledd, ac fe'i hystyrir yn brin.<br>Mae gwasgariad ystlumod pedol lleiaf yn fwy cyfyngedig, ond y rhywogaeth hon yw'r un fwyaf celgar, felly prin y sylwir arni.<br>• **Bygythiadau:** gall aflonyddwch gan bobl, yn enwedig ar safleoedd gaeafgysgu, ei niweidio. Gall newidiadau i arferion amaethyddol hefyd olygu bod llai o ysglyfaeth ar gael iddo. Mae perygl i ystlumod pedol lleiaf gael eu taro gan gerbydau, ac mae goleuadau artiffisial yn y nos yn cael effaith niweidiol arnynt. | • Sicrhau bod coetir o safon a chysylltedd yn cael ei gynnal mewn ardaloedd o fewn parthau cynhaliaeth craidd y mannau clwydo hysbys.<br><br>• Hyrwyddo gostyngiad mewn goleuadau diangen / mentrau awyr dywyll<br><br>• Diogelu safleoedd clwydo hysbys a chwilio am safleoedd newydd i hwyluso lledaeniad. |
| *Mustela putorius*- ffwlbart<br><br>© K. Williamson | • **Cynefinoedd cysylltiedig:** ceir hyd i'r ffwlbart mewn amrywiaeth o gynefinoedd, gan gynnwys tir fferm, coetir, corsydd, glannau afon, cloddiau, cynefinoedd arfordirol a hyd yn oed ardaloedd trefol.<br>• **Statws presennol:** yng Nghymru statws 'Rhestr Goch'* y ffwlbart ar hyn o bryd yw **Pryder lleiaf**<br>• Cynyddodd y poblogaethau o ffwlbartiaid wedi iddynt ostwng yn ddramatig o gael eu herlid yn y gorffennol. Parhaodd Canolbarth Cymru yn gadarnle iddynt.<br>• Ceir cofnodion ohonynt ledled y sir, ond maent yn anodd iawn i'w gweld o hyd. Fe'u gwelir gan amlaf wedi'u lladd ar y ffordd. | |

| RHYWOGAETHAU O FAMALIAID ADRAN 7 Â BLAENORIAETH YN SIR GAERFYRDDIN - cofnodwyd ers 2000 | | |
|---|---|---|
| RHYWOGAETHAU | TROSOLWG O SIR GAERFYRDDIN | CAMAU Â BLAENORIAETH |
| | • **Bygythiadau:** ceir pryder y gallai bwyta llygod mawr sydd wedi'u halogi gan wenwyn llygod ac unrhyw ostyngiad yn y boblogaeth o gwningod gael effaith negyddol ar y boblogaeth o ffwlbartiaid.<br>• Yn ystod 2014–15 cynhaliodd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent arolwg o ffwlbartiaid a oedd yn byw yn y gwyllt neu ffuredau gwyllt yn y DU. O gofnodion Sir Gaerfyrddin y gellid eu gwirio, roedd modd categoreiddio 95% yn ffwlbartiaid pur. | |
| *Nyctalus noctule* - ystlum mawr<br><br>© R.E. Stebbings/ www.bats.org.uk | • **Cynefin cysylltiedig:** Yn gysylltiedig ag ardaloedd coediog a pharcdir. Dyma un o'n hystlumod mwyaf, ac mae'n bwydo ar ystod o infertebratau, gan gynnwys mân bryfetach, chwilod a gwyfynod.<br>• **Clwydfannau:** yr haf – yn uchel i fyny mewn tyllau yn y coed (ee, yn hen safleoedd nythod cnocellau'r coed a thyllau mewn pren sy'n pydru), weithiau ceir hyd iddynt mewn adeiladau a blychau ystlum. y gaeaf – tyllau mewn coed â waliau trwchus, agennau mewn creigiau ac agennau mewn adeiladau.<br>• **Statws presennol:** yng Nghymru statws 'Rhestr Goch'* yr ystlum mawr ar hyn o bryd yw Pryder lleiaf<br>• Er bod y rhywogaeth wedi'i gwasgaru'n eang, mae nifer y clwydfannau yr ydym yn gwybod amdanynt ac yn eu monitro yng Nghymru yn gymharol brin. Ystyrir ei bod yn wedi'i gwasgaru'n eang ac yn weddol gyffredin yn Sir Gaerfyrddin.<br>• **Bygythiadau:** Dyma un o'r prif rywogaethau a gaiff eu lladd gan dyrbinau gwynt. | • Hyrwyddo rheolaeth briodol ar goed. |
| *Pipistrellus pygmaeus* - ystlum lleiaf meinlais<br><br>© Hugh Clark/ www.bats.org.uk | • **Cynefin cysylltiedig:** Dyma ystlum bach sydd i'w gael fel arfer mewn cynefinoedd gwlyptir, er enghraifft o amgylch afonydd a llynnoedd, ond hefyd ar ymylon coetir, ar hyd llinellau o goed, mewn gwrychoedd, gerddi a pharciau. Mae'n bwyta mân bryfetach yn bennaf, yn enwedig gwybed a mosgitos sy'n gysylltiedig a'r dŵr.<br>• **Clwydfannau:** yr haf - agennau ar y tu allan i dai ac adeiladau. y gaeaf - agennau mewn adeiladau a choed, a hefyd mewn blychau ystlum.<br>• **Statws presennol:** yng Nghymru statws 'Rhestr Goch'* yr ystlum lleiaf meinlais ar hyn o bryd yw Pryder lleiaf<br>Rhywogaethau cyffredin ac eang yn y sir.<br>• **Bygythiadau:** Mae'r cyfraddau sy'n cael eu lladd gan gathod sy'n ysglyfaethu arnynt, gwrthdrawiadau gan gerbydau a gwrthdrawiadau â thyrbinau gwynt gyda'r uchaf. Gallai defnyddio pilenni sy'n gadael i aer gylchredeg ar adeiladau olygu bod clwydfannau mewn gofodau yn y to yn llai addas am eu bod yn rhy oer.<br>• Er eu bod yn gyffredin, mae hynny hefyd yn golygu eu bod yn gwrthdaro'n fwyaf rheolaidd â datblygu erbyn hyn, felly mae colledion bach rheolaidd gyda'i gilydd yn creu colled fwy. | |
| *Plecotus auratus* - ystlum hirglust | • **Cynefin cysylltiedig:** Maent yn hedfan yn agos at lystyfiant neu mewn coetir, ac yn aml yn defnyddio'u clustiau hir i wrando am sŵn eu hysglyfaeth ac i godi trychfilod o wyneb yr isdyfiant. Maent yn bwyta gwyfynod, chwilod, pryfed, pryfed clustiau a chorynod.<br>• Clwydfannau: yr haf - mewn cytrefi bach mewn adeiladau hŷn, ysguboriau, eglwysi, blychau ystlum a choed. y gaeaf - ogofâu, twneli, mwynfeydd - weithiau | • Hyrwyddo gostyngiad mewn goleuadau diangen / mentrau awyr dywyll |

| RHYWOGAETHAU O FAMALIAID ADRAN 7 Â BLAENORIAETH YN SIR GAERFYRDDIN - cofnodwyd ers 2000 | | |
|---|---|---|
| RHYWOGAETHAU | TROSOLWG O SIR GAERFYRDDIN | CAMAU Â BLAENORIAETH |
| <br>© John Altringham/ www.bats.org.uk | mewn coed ac adeiladau.<br><br>• **Statws presennol:** yng Nghymru statws 'Rhestr Goch'* yr ystlum hirglust ar hyn o bryd yw Pryder lleiaf<br><br>Rhywogaethau cyffredin ac eang yn y sir.<br><br>• **Bygythiadau:** Mae ystlumod hirglust yn cuddio oddi wrth y golau, felly mae goleuadau artiffisial yn y nos yn cael effaith niweidiol arnynt. Gallai defnyddio pilenni sy'n gadael i aer gylchredeg ac addasiadau eraill i adeiladau olygu bod clwydfannau mewn gofodau yn y to yn llai addas am eu bod yn rhy oer. | |
| *Pipistrellus pipistrellus* - ystlum lleiaf<br><br>©Hugh Clark/ www.bats.org.uk | • **Cynefin cysylltiedig:** Ystlum bach yw hwn sydd i'w weld mewn amrywiaeth eang o gynefinoedd yn cynnwys tir ffermio, coetir, maestrefi, a threfi. Mae'n bwyta mân bryfetach yn bennaf.<br><br>• **Clwydfannau:** yr haf - agennau ar y tu allan i dai ac adeiladau, blychau ystlum, tyllau/agennau mewn coed. y gaeaf - agennau mewn adeiladau a choed a blychau.<br><br>• **Statws presennol:** yng Nghymru statws 'Rhestr Goch'* yr ystlum pedol lleiaf ar hyn o bryd yw Pryder lleiaf<br><br>Rhywogaethau cyffredin ac eang yn y sir.<br><br>• **Bygythiadau:** Mae'r cyfraddau sy'n cael eu lladd gan gathod sy'n ysglyfaethu arnynt, gwrthdrawiadau gan gerbydau a gwrthdrawiadau â thyrbinau gwynt gyda'r uchaf.  Gallai defnyddio pilenni sy'n gadael i aer gylchredeg ac addasiadau eraill i adeiladau olygu bod clwydfannau mewn gofodau yn y to yn llai addas am eu bod yn rhy oer.<br>• Er eu bod yn gyffredin, mae hynny hefyd yn golygu eu bod yn gwrthdaro'n fwyaf rheolaidd â datblygu erbyn hyn, felly mae colledion bach rheolaidd gyda'i gilydd yn creu colled fwy. | |
| Rhywogaethau o Bwysigrwydd Lleol yn Sir Gaerfyrddin – heb eu cynnwys ar restr Adran 7 o rywogaethau â blaenoriaeth | | |
| *Myotis mystacinus/M. brandtii* ystlum barfog/Brandt | • **Cynefin cysylltiedig:** coetir, glaswelltir, gwrychoedd a gwlyptir. Maen nhw'n bwydo ar bryfed sy'n hedfan.<br><br>Ceir llawer o ddirgelwch yn gysylltiedig ag ystlumod barfog/ystlumod Brandt. Mae eu morffoleg, eu patrwm hedfan a'u cynefin yn debyg, ac mae'n anodd gwahaniaethu rhyngddynt drwy ddefnyddio synhwyrydd ystlumod, ond nid ydynt yn perthyn yn agos i'w gilydd.<br><br>• **Clwydfannau:** yr haf – adeiladau, coed, blychau ystlum. y gaeaf - twneli tanddaearol, tai ia ac ogofâu.<br><br>• **Statws presennol:** yng Nghymru statws 'Rhestr Goch'* ystlumod barfog/Brandt ar hyn o bryd yw Diffyg data<br><br>Yn Sir Gaerfyrddin, ystyrir bod ystlumod barfog wedi'u gwasgaru'n eang a'u bod yn weddol brin; mae ystlum Brandt yn brin iawn.<br><br>• **Bygythiadau:** Nid oes unrhyw wybodaeth benodol am fygythiadau ym Mhrydain. Fodd bynnag, mae'n debygol bod golau artiffisial a cholli cynefinoedd yn effeithio arnynt. | • Angen gweithredu i ddiffinio gwasgariad y ddwy rywogaeth. |

| RHYWOGAETHAU O FAMALIAID ADRAN 7 Â BLAENORIAETH YN SIR GAERFYRDDIN - cofnodwyd ers 2000 | | |
|---|---|---|
| RHYWOGAETHAU | TROSOLWG O SIR GAERFYRDDIN | CAMAU Â BLAENORIAETH |
| *Eptesicus serotinus* ystlum adain-lydan | • **Cynefin cysylltiedig:** tir pori a pharcdir. Maen nhw'n bwydo ar wyfynod a chwilod mawr.<br><br>• Clwydfannau: yr haf - adeiladau'n agos at goetir, dŵr, glaswelltir. y gaeaf - ychydig a wyddys am eu clwydfannau gaeafgysgu - adeiladau fwy na thebyg.<br><br>• **Statws presennol:** yng Nghymru, statws 'Rhestr Goch'* yr ystlum adain-lydan ar hyn o bryd yw Bregus<br>• Fe'i hystyrir yn brin iawn yn Sir Gaerfyrddin.<br><br>• **Bygythiadau:** gall newidiadau i ddyluniad adeiladau, yn enwedig y defnydd o bilenni to sy'n gadael i aer gylchredeg wneud adeiladau'n llai addas. Mae dwysáu amaethyddol a defnyddio cyffuriau gwrth-barasitig wedi lleihau'r ysglyfaethau sydd ar gael iddo. Gall llawer o ystlumod adain-lydan ifanc farw mewn tywydd gwael, felly gall amrywiadau i'r tywydd yn sgil y newid hinsawdd gael effaith niweidiol ar y boblogaeth. | • Arolygu a chwilio am glwydfannau yw'r brif flaenoriaeth |
| ystlum lleiaf nathusius (*Pipistrellus nathusii*) | • **Cynefin cysylltiedig:** Mae'r rhywogaeth yn gysylltiedig â dŵr, a daw'r rhan fwyaf o gofnodion o ardaloedd sydd o fewn ychydig gilometrau i lynnoedd dŵr croyw neu aberoedd afonydd mawr. Mae'n bwydo ar bryfed sy'n hedfan.<br><br>• **Statws presennol:** yng Nghymru statws 'Rhestr Goch'* ystlum lleiaf nathusius ar hyn o bryd yw Bregus.<br>Ychydig a wyddom am y rhywogaeth fudol hon yng Nghymru. Hyd yn ddiweddar, tybiwyd mai rhywogaeth grwydrol ydoedd, ond credir bellach fod rhai o'r ystlumod yn aros yn y DU drwy'r flwyddyn ac yn magu yma.<br>• Ystyrir ei fod yn eithriadol o brin yn Sir Gaerfyrddin.<br><br>**Clwydfannau:** yr haf - craciau/agennau/waliau ceudod/o dan lechi mewn adeiladau brics. DS. Ni chanfuwyd unrhyw glwydfannau mamolaeth yng Nghymru. Gaeaf – craciau/agennau mewn adeiladau/creigiau/blychau ystlumod.<br><br>• **Bygythiadau:** credid bod y newid hinsawdd wedi cyfrannu at y cynnydd yn nifer yr ystlumod lleiaf nathusius a gofnodir ym Mhrydain. Mae'r rhywogaeth mewn perygl mawr o wrthdaro â thyrbinau gwynt, gyda datblygiadau alltraeth ar hyd ei llwybrau mudol yn destun pryder neilltuol. | • Yn Sir Gaerfyrddin mae angen cael dealltwriaeth well o'i wasgariad i ddechrau, a chanfod a yw'n preswylio yn y sir. |
| *Neomys fodiens* chwistlen ddŵr | • **Cynefin cysylltiedig:** cynefin dŵr croyw/gwlyptir ond hefyd gwrychoedd a ffosydd cysylltiedig<br><br>• **Statws presennol:** yng Nghymru statws 'Rhestr Goch'* y chwistlen ddŵr ar hyn o bryd yw Pryder lleiaf<br>Yn Sir Gaerfyrddin, dim ond 30 o gofnodion a geir o 2000 ymlaen. Mae'n bosib bod hyn yn gysylltiedig â diffyg ymdrech i gynnal arolygon yn hytrach na'r ffaith nad yw'r rhywogaeth yn bresennol. Ceir Diffyg Data yn y sir am y rhywogaeth hon.<br><br>• **Bygythiadau:** Mae gostyngiad yn y cynefin sydd ar gael, a achosir gan waith clirio cloddiau ac addasu dyfrffydd sydd wedi dinistrio tyllau, ac addasiadau i gyrsiau dŵr. Mae'n debygol bod y rhywogaeth mewn perygl oherwydd ansawdd gwael y dŵr, ac yn sgil dirywiad yn ansawdd y tyllau sy'n gynefin iddynt. | • Annog mwy o gofnodion o'r rhywogaeth hon |
| *Mustela ermina* carlwm | • **Cynefin cysylltiedig:** Ffermdir / yr arfordir | • Annog mwy o gofnodion o'r rhywogaeth |

| RHYWOGAETHAU O FAMALIAID ADRAN 7 Â BLAENORIAETH YN SIR GAERFYRDDIN - cofnodwyd ers 2000 | | |
|---|---|---|
| RHYWOGAETHAU | TROSOLWG O SIR GAERFYRDDIN | CAMAU Â BLAENORIAETH |
| | • **Statws presennol:** yng Nghymru statws 'Rhestr Goch'* y carlwm ar hyn o bryd yw Bron dan fygythiad.<br><br>Dim ond 18 cofnod o 2000 ymlaen. Mae'n bosib bod hyn yn gysylltiedig â diffyg ymdrech i gynnal arolygon yn hytrach na'r ffaith nad yw'r rhywogaeth yn bresennol. Ceir Diffyg Data yn y sir am y rhywogaeth hon.<br><br>• **Bygythiadau:** Mae dirywiad ym mhoblogaeth ei hysglyfaeth, ee, cwningod, yn debygol o effeithio ar y rhywogaeth. Gall carlymod hefyd fod mewn perygl wrth fwyta ysglyfaeth wedi'i gwenwyno gan wenwyn llygod. Mae colli cynefin a ffafrir hefyd yn fygythiad cynyddol. | hon |